

MENTER AR GYFER
CADWRAETH NATUR CYMRU



INITIATIVE FOR NATURE
CONSERVATION CYMRU

Newsletter

March 2025

Supporting INCC helps us to stand up for nature by taking legal action as well as restoring habitats and species across Wales.

To remain impartial, we do not accept Government funding for any of our activities. Instead, we rely on the generous support from people like you, through regular giving, donations and bequests. Your contribution will help INCC fund important conservation work.

One of the best ways to support INCC is by signing up to our all-Wales conservation magazine [Natur Cymru](#). For more information on how you can support INCC, scan the QR code or visit our [website](#).



The Initiative for Nature Conservation Cymru (INCC) is a Charitable Incorporated Organisation (CIO). charity number 1180113.

INCC, c/o Science Centre, National Botanic Garden of Wales, Llanarthne, Carmarthenshire, SA32 8HG.

Welcome

Welcome to INCC's first newsletter of 2025. It has already been a busy start to the year. Our **Stop the War on Nature** campaign has raised an amazing £200,000 so far. Once we create the **Investigations Team**, INCC will be better placed to expose the decisions, actions and inaction of our Government and statutory environmental body where wildlife is concerned. Thank you so much to everyone who has donated already. It is very much appreciated by me and all at INCC.

We do, however still need your help. If you can support the project, please donate by clicking the link below and forward our crowdfunder page to friends.



[Stop the War on Nature](#)



INCC CEO Rob Parry (top). © Lizzie Wilberforce
Natur Cymru magazine (bottom). © Louise Waring



INCC Wins Battle Over NRW's Environmental Failures

After a two-year battle with Natural Resources Wales (NRW), INCC has been able to force the statutory environmental body for Wales to use its own legal powers to safeguard one of South Wales' most important grassland habitats.

The Site of Special Scientific Interest (SSSI), which cannot be named for legal reasons, was once described as one of the most significant wildlife sites in Rhondda Cynon Taf. It had an amazing array of rare habitats, including marshy grassland, species-rich neutral grassland and wet heath which used to cover 25 hectares of the site. These habitats were home to some of our rarest species, including the beautiful Marsh Fritillary butterfly.

However, since the site was designated as a SSSI some 18 years ago, it has been left unmanaged, resulting in the loss of important grassland habitat, and with it the rare and specialist wildlife that relied on it. It is believed that the Marsh Fritillary butterfly became extinct at the site in around 2014.

In a letter to INCC, dated 25th October 2022, NRW acknowledge that the site in question is not in suitable condition and requires appropriate habitat management works. Furthermore, NRW also acknowledged that they had yet to enter into a management agreement with the landowner which would have established a regime of suitable habitat management works to be undertaken.

Although the site continues to decline, there is hope. Due to the pressure exerted on NRW by INCC, formal action has now been finally instigated by NRW to use their own statutory powers to restore the species-rich grassland habitat within the site. According to NRW in their letter to INCC (25th October 2022), a key reason for taking action to ensure suitable management was due to INCC's recent Marsh Fritillary butterfly reintroduction.

A spokesperson for NRW said *"We acknowledge, that given the recent re-introduction of the Marsh Fritillary butterfly at Llantrisant Common SSSI by INCC, the matter of ensuring that there is as much suitable habitat in the wider landscape available for this species is more important than ever"*.

This is a success for INCC and for wildlife, but investigations like this highlight the plight of our most important sites for wildlife and the body that should be looking after them. For each SSSI case we bring forward there must be many more still being degraded by destruction, poor management and abandonment.

This case shows the importance of challenging environmental decision makers and highlights what more could be done for wildlife when INCC's Investigations Unit is in place.

[#Stop the War on Nature](#)



Willow Tit Conservation at the Nature Reserve

A walkover survey of our Llwyndewi Nature Reserve in November last year identified two Willow Tits *Poecile montanus* in the wet woodland and scrub habitat. Willow Tits are now the most threatened resident bird species in the UK, and their population has crashed by 92% since the early 1990's. As soon as we knew that Willow Tit were present at the nature reserve, efforts turned toward making the site as suitable as possible. Thanks to support from Bridgend College's Wildlife and Countryside students, we were able to block ditches and create scrapes to provide foraging habitat. Students also helped ring-bark small trees to create standing deadwood to provide suitable nesting sites for the species.

In March 2025, thanks to support from the Welsh Ornithological Society (WOS), INCC were able to install 20 specially designed Willow Tit nest boxes. These boxes have been scattered over the nature reserve and will be monitored across the spring and summer months.



Willow Tit (left). © Jeff Slocombe

INCC and college students creating scrape habitat at the nature reserve (right). © Rob Parry



Stop the War on Nature – why we need to expose inaction.

Over the next three years we want to pioneer a fundamental shift in the nature conservation sector that will see greater emphasis being placed on holding environmental decision makers to account.

We want to achieve this by exposing and challenging attitudes, inaction, and decision making, where it has the potential to impact wildlife and nature conservation in Wales. To donate please click the link - <https://www.crowdfunder.co.uk/p/stop-the-war-on-nature>

"Nature in Wales is in a terrible state. A large part of that is a government that doesn't seem to care about wildlife, and the almost complete absence of a statutory environmental body. If we are ever going to reverse the woeful position wildlife finds itself in, then we need to hold decision makers to account. INCC's project will do just that. It will challenge and expose the actions and inactions of those that nature should be able to rely on".

Iolo Williams - TV Presenter, Naturalist & INCC Honorary President



New Water Vole Colonies Found in South Wales Uplands

The upland landscape of the Rhondda and Afan Valleys in South Wales has long been known for its wild and captivating atmosphere. Today, thanks to the work of INCC, partner organisations and local volunteers we now know that this landscape also supports populations of the UK's fastest declining mammal species – the Water Vole.

The project, which is funded by the Pen y Cymoedd Community Fund has been surveying the numerous ditches, marshes, and peat bogs of the uplands since May 2024 and has already found 20 new Water Vole colonies.

The surveys build on the work already undertaken by partner organisations in the area, and together, more than 40 Water Vole colonies have now been recorded in the landscape in 2024 and the past few years. This makes these upland habitats one of the most significant places in Wales for this special mammal.

INCC is focused on saving upland Water Voles because they play a vital role in maintaining the balance and health of upland ecosystems. Once a common sight, Water Voles have declined due to habitat loss and predation by the invasive non-native American Mink, which can wipe out entire colonies within a few days. The good news is that American Mink tend to avoid upland areas, providing safer habitats for Water Voles.

INCC officers are looking forward to getting back out in the uplands come springtime to survey and monitor more Water Vole colonies across Neath Port Talbot and the Maerdy valley. This important project will be supported by local volunteers, who will help survey and identify key habitats for this endangered species.

In addition to surveying, INCC will collaborate with universities and partnerships to carry out genetic analysis of Water Vole populations. This research aims to better understand the connectivity between the discovered colonies.

For more information on INCC's Upland Water Vole project in South Wales and how you can help, please visit our website:

[Saving Wales's upland Water Voles – Initiative for Nature Conservation Cymru](#)

Water Vole distribution in the Project Area (top). © Rob Parry
Water Vole (bottom). © Tim Melling



We Need to do More for Otters Crossing our Roads

In the space of just a few short days an entire family of Otters has been killed on a busy stretch of road in the Vale of Glamorgan. At a nearby farm, INCC has been working at a nature friendly farm over the past 18 months to increase its wildlife value. This has involved installing wide margins along its rivers and streams so that long grass, scrub and eventually woodland habitat can develop. These habitats offer Otters the cover and shelter they need to live their secluded lives.

Otters live in structures called holts, which are often holes and cavities in the riverbank created by leaning trees. Finding the right conditions for natural holts can be very difficult. We can help this process by providing artificial holts, often made from wooden logs or recycled plastic. One such artificial Otter holt was built at the farm, positioned on the bank above floodwater and adjacent to a deep pool in the river – the ideal location. A wildlife camera watched the comings and goings of an Otter on the river for several months. In January this year, the camera provided evidence that the artificial Otter holt was being investigated by a female Otter, and weeks later the female along with her male partner were seen together on the river. The hope was that the female Otter was pregnant with cubs, and she would soon call the farm home to her new young family.

Then on the 18th of February, disaster struck as a male Otter was found dead on A4226 (Five-mile Lane) in the Vale of Glamorgan. This busy road is well-known to local commuters to Barry in the South. Despite the sad news, hope remained that the female and her young would be ok. Tragically, just two weeks later, the worst thing imaginable happened, the female Otter was found killed on the same road in the very same location as her partner, just days before. Worse still, the female Otter was by now a mother as she had already given birth to her two young cubs. Efforts to search nearby rivers and woodlands for the mother's cubs were undertaken by local farmers and volunteers, but unfortunately it was in vain. As the female Otter was still lactating, it is presumed that the young cubs perished through starvation a few days after their mother's death.

Otters can live up to 12 years in the wild and usually reach sexual maturity at the age of two. As mothers invest a great deal of time rearing and looking after their cubs, it means that a female Otter may only have two litters of young in her lifetime. Therefore, the loss of one Otter to our roads is one Otter too many. The Vale of Glamorgan (VoG) council is now investigating what they can do at these pinch points and other locations across the county to prevent further Otter deaths in future.

INCC will continue to provide suitable habitat at the farm as well as work with the Local Authority to install appropriate road mitigation to prevent this happening in future.

© 2025 Microsoft Corporation Earthstar Geographics SIO

MENTER AR GYFER
CADWRAETH NATUR CYMRU



INITIATIVE FOR NATURE
CONSERVATION CYMRU

Cylchlythyr

Mawrth 2025

Mae cefnogi INCC yn ein helpu ni i sefyll dros fyd natur drwy gymryd camau cyfreithiol yn ogystal ag adfer cynefinoedd a rhywogaethau ledled Cymru.

Er mwyn bod yn ddiduedd, dydyn ni ddim yn derbyn cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer unrhyw un o'n gweithgareddau ni. Yn hytrach, rydyn ni'n dibynnu ar gefnogaeth hael pobl fel chi, drwy gyfraniadau rheolaidd, rhoddion a chymynroddion. Bydd eich cyfraniad yn helpu INCC i gyllido gwaith cadwraeth pwysig.



Un o'r ffyrdd gorau o gefnogi INCC yw drwy gofrestru ar gyfer ein cylchgrawn cadwraeth ar gyfer Cymru gyfan, [Natur Cymru](#). Am fwy o wybodaeth am sut gallwch chi gefnogi INCC, sganiwch y cod QR neu ewch i'n [gwefan](#) ni.

Mae Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC) yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO). Rhif yr Elusen 1180113.

INCC, d/o Y Ganolfan Wyddoniaeth, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, SA32 8HG.

Croeso

Croeso i gylchlythyr cyntaf INCC yn 2025. Mae eisoes wedi bod yn ddechrau prysur i'r flwyddyn. Mae ein **hymgyrch Stopio'r Rhyfel yn erbyn Natur** wedi codi swm anhygoel o £200,000 hyd yn hyn. Unwaith y byddwn ni'n creu'r **Tîm Ymchwiliadau**, bydd INCC mewn sefyllfa well i ddatgelu penderfyniadau, gweithredoedd a diffyg gweithredu ein Llywodraeth a'n corff amgylcheddol statudol o ran bywyd gwylt. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu eisoes. Mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr gen i a phawb yn INCC.

Er hynny, rydyn ni angen eich help chi o hyd. Os gallwch chi gefnogi'r prosiect, rhowch gyfraniad drwy glicio ar y ddolen isod ac anfon ein tudalen crowdfunder ymlaen at ffrindiau.



Stopio'r Rhyfel yn erbyn Natur



Prif Swyddog Gweithredol INCC Rob Parry (top). © Lizzie Wilberforce
Cylchgrawn Natur Cymru (gwaelod). © Louise Waring



INCC yn Ennill Brwydr Dros Fethiannau Amgylcheddol CNC

Ar ôl brwydr am ddwy flynedd gyda sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), mae INCC wedi gallu gorfodi corff amgylcheddol statudol Cymru i ddefnyddio ei bwerau cyfreithiol ei hun i ddiogelu un o gynefinoedd glaswelltir pwysicaf De Cymru.

Disgrifiwyd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), nad oes posib ei enwi am resymau cyfreithiol, fel un o'r safleoedd bywyd gwyllt mwyaf arwyddocaol yn Rhondda Cynon Taf ar un adeg. Roedd ganddo amrywiaeth anhygoel o gynefinoedd prin, gan gynnwys glaswelltir corsiog, glaswelltir niwtral llawn rhywogaethau a rhostir gwlyb a arferai orchuddio 25 hectar o'r safle. Roedd y cynefinoedd hyn yn gartref i rai o'n rhywogaethau prinnaf ni, gan gynnwys glöyn byw hardd Britheg y Gors.

Er hynny, ers i'r safle gael ei ddynodi'n SoDdGA ryw 18 mlynedd yn ôl, mae wedi cael ei adael heb ei reoli, gan arwain at golli cynefin glaswelltir pwysig, a gyda hynny'r bywyd gwyllt prin ac arbenigol oedd yn dibynnu arno. Credir bod glöyn byw Britheg y Gors wedi wynebu difodiant ar y safle tua 2014.

Mewn llythyr at INCC, dyddiedig 25ain Hydref 2022, mae CNC yn cydnabod nad yw'r safle dan sylw mewn cyflwr addas a bod angen gwaith rheoli cynefinoedd priodol arno. Hefyd, mae CNC yn cydnabod nad oedd wedi ymrwymo eto i gytundeb rheoli gyda'r perchennog tir a fyddai wedi sefydlu trefn o waith rheoli cynefinoedd addas.

Er bod y safle'n parhau i ddirywio, mae gobaiith. Oherwydd y pwysau a roddwyd ar CNC gan INCC, mae CNC wedi cymryd camau ffurfiol o'r diwedd i ddefnyddio ei bwerau statudol i adfer y cynefin glaswelltir llawn rhywogaethau ar y safle. Yn ôl CNC yn ei lythyr at INCC (25ain Hydref 2022), un o'r prif resymau dros gymryd camau i sicrhau rheolaeth addas oedd ailgyflwyno glöyn byw Britheg y Gors yno yn ddiweddar gan INCC.

Dywedodd llefarydd ar ran CNC: *"Rydyn ni'n cydnabod, o ystyried ailgyflwyno glöyn byw Britheg y Gors i SoDdGA Comin Llantrisant gan INCC yn ddiweddar, bod y mater o sicrhau cymaint o gynefin addas yn y dirwedd ehangach sydd ar gael i'r rhywogaeth yma'n bwysicach nag erioed"*.

Mae hyn yn llwyddiant i INCC ac i fywyd gwyllt, ond mae ymchwiliadau fel hyn yn amlygu cyflwr difrifol ein safleoedd pwysicaf ni ar gyfer bywyd gwyllt a'r corff a ddylai fod yn gofalu amdanynt. Ar gyfer pob achos SoDdGA rydyn ni'n eu cyflwyno, rhaid bod llawer mwy yn parhau i gael eu diraddio gan ddinistri, rheolaeth wael ac esgeuluso.

Mae'r achos hwn yn dangos pwysigrwydd herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau amgylcheddol ac yn amlygu beth arall fydd posib ei wneud dros fywyd gwyllt pan fydd Uned Ymchwiliadau INCC yn ei lle.

[#Stopio'r Rhyfel yn erbyn Natur](#)

Cadwraeth Titw'r Helyg yn y Warchodfa Natur

Mewn arolwg ar droed o Warchodfa Natur Llwyndewi fis Tachwedd y llynedd, canfuwyd dau Titw'r Helyg *Poecile montanus* yn y coetir gwlyb a'r cynefin prysgwydd. Titw'r Helyg yw'r rhywogaeth o adar preswyl sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf yn y DU bellach, ac mae ei boblogaeth wedi gostwng o 92% anhygoel ers dechrau'r 1990au.

Cyn gynted ag y daethon ni i ddeall bod Titw'r Helyg yn bresennol yn y warchodfa natur, fe drodd yr ymdrechion tuag at wneud y safle mor addas â phosibl iddo. Diolch i gefnogaeth gan fyfyrwyr Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, fe wnaethon ni lwyddo i flocio ffosydd a chreu pyllau dŵr i ddarparu cynefin chwilota am fwyd. Bu'r myfyrwyr hefyd yn helpu i gylchu rhisgl coed bach i greu pren marw i ddarparu safleoedd nythu addas i'r rhywogaeth.

Ym mis Mawrth 2025, diolch i gefnogaeth gan Gymdeithas Adaryddol Cymru (WOS), llwyddodd INCC i osod 20 o focsys nythu wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer Titw'r Helyg yn eu lle. Mae'r bocsys yma wedi'u gwasgaru ar draws y warchodfa natur a byddant yn cael eu monitro dros fisoedd y gwanwyn a'r haf.



Titw'r Helyg (chwith). © Jeff Slocombe
INCC a myfyrwyr coleg yn creu cynefin pwll dŵr yn y warchodfa natur (dde). © Rob Parry



Stopio'r Rhyfel yn erbyn Natur – pam mae angen tynnu sylw at ddiffyg gweithredu.

Dros y tair blynedd nesaf rydyn ni eisiau arloesi gyda newid sylfaenol yn y sector cadwraeth natur a fydd yn gweld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddwyn pobl sy'n gwneud penderfyniadau amgylcheddol i gyfrif.

Rydyn ni eisiau cyflawni hyn drwy herio a thynnu sylw at agweddau, diffyg gweithredu a phenderfyniadau, lle mae potensial i effeithio ar fywyd gwylt a chadwraeth natur yng Nghymru. I gyfrannu cliciwch ar y ddolen - <https://www.crowdfunder.co.uk/p/stop-the-war-on-nature>

"Mae byd natur yng Nghymru mewn cyflwr difrifol. Un elfen fawr o hynny yw llywodraeth nad yw i weld yn poeni am fywyd gwylt, ac absenoldeb cyfan gwbl bron corff amgylcheddol statudol. Os ydyn ni am wyrddroi'r sefyllfa druenus y mae bywyd gwylt ynddi byth, mae angen i ni ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif. Bydd prosiect INCC yn gwneud hynny. Bydd yn herio ac yn datgelu gweithredoedd a diffyg gweithredu'r rhai y dylai byd natur allu dibynnu arnyn nhw."

Iolo Williams – Cyflwynydd Teledu, Naturiaethwr a Llywydd Anrhydeddus INCC



Canfod Poblogaethau Newydd o Lygod Pengrwn y Dŵr yn Ucheldiroedd De Cymru

Mae tirwedd ucheldirol Cymoedd y Rhondda ac Afan yn Ne Cymru wedi bod yn adnabyddus ers tro byd am eu hawyrgylch gwylt a chyfareddol. Heddiw, diolch i waith INCC, sefydliadau partner a gwirfoddolwyr lleol rydyn ni bellach yn gwybod bod y dirwedd hon hefyd yn gartref i boblogaethau o'r rhywogaeth o famal sy'n prnhau gyflymaf yn y DU – Llygoden Bengron y Dŵr.

Mae'r prosiect, sy'n cael ei gyllido gan Gronfa Gymunedol Pen y Cymoedd, wedi bod yn arolygu ffosydd, mignau a chorsydd mawn niferus yr ucheldiroedd ers mis Mai 2024 ac mae eisoes wedi dod o hyd i 20 o boblogaethau newydd o Lygod Pengrwn y Dŵr.

Mae'r arolygon yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud eisoes gan sefydliadau partner yn yr ardal, a gyda'i gilydd, mae mwy na 40 o boblogaethau o Lygod Pengrwn y Dŵr wedi'u cofnodi bellach yn y dirwedd yn 2024 a'r ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn gwneud y cynefinoedd ucheldirol yma'n un o'r llefydd mwyaf arwyddocaol yng Nghymru ar gyfer y mamal arbennig yma.


Mae INCC yn canolbwyntio ar achub Llygod Pengrwn y Dŵr yr ucheldir oherwydd eu bod yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal cydbwysedd a chyflwr ecosystemau'r ucheldir. Yn olygfa gyffredin ar un adeg, mae Llygod Pengrwn y Dŵr wedi dirywio oherwydd colli cynefin ac ysglyfaethu gan y Minc Americanaidd estron ymledol, sy'n gallu dileu poblogaethau cyfan o fewn ychydig ddyddiau. Y newyddion da yw bod Mincod Americanaidd yn tueddu i osgoi ardaloedd ucheldirol, gan ddarparu cynefinoedd mwy diogel i Lygod Pengrwn y Dŵr.

Mae swyddogion INCC yn edrych ymlaen at fynd yn ôl i'r ucheldiroedd yn y gwanwyn i arolygu a monitro mwy o boblogaethau o Lygod Pengrwn y Dŵr ar draws Castell-nedd Port Talbot a Chwm Maerdy. Bydd y prosiect pwysig yma'n cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr lleol, a fydd yn helpu i arolygu ac adnabod cynefinoedd allweddol ar gyfer y rhywogaeth yma sydd mewn perygl.

Yn ogystal ag arolygu, bydd INCC yn cydweithredu â phrifysgolion a phartneriaethau i gynnal dadansoddiad genetig o'r poblogaethau o Lygod Pengrwn y Dŵr. Nod yr ymchwil yma yw deall yn well y cysylltedd rhwng y poblogaethau sydd wedi'u darganfod.

I gael rhagor o wybodaeth am brosiect Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldir INCC yn Ne Cymru a sut gallwch chi helpu, ewch i'n gwefan ni:

[Achub Llygod Pengrwn y Dŵr Ucheldiroedd Cymru – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru](#)



Rhaid i Ni Wneud Mwy Dros Ddyfrgwn Sy'n Croesi Ein Ffyrdd

Mewn cyfnod byr o ychydig ddyddiau yn unig mae teulu cyfan o Ddyfrgwn wedi cael eu lladd ar ddarn prysur o ffordd ym Mro Morgannwg. Mewn ardal gyfagos, mae INCC wedi bod yn gweithio ar fferm sy'n gyfeillgar i natur dros y 18 mis diwethaf i gynyddu ei gwerth i fywyd gwyllt. Mae hyn wedi cynnwys gosod ymylon llydan ar hyd ei hafonydd a'i nentydd fel bod glaswellt tal, prysgwydd ac, yn y pen draw, cynefin coetir, yn gallu datblygu. Mae'r cynefinoedd yma'n cynnig y lloches a'r cysgod sydd eu hangen ar Ddyfrgwn i fyw eu bywydau o'r neilltu.

Mae dyfrgwn yn byw mewn strwythurau o'r enw gwalau, sy'n aml yn dyllau a cheudodau yng nglan yr afon sy'n cael eu creu gan goed sy'n gwyro. Mae'n gallu bod yn anodd iawn dod o hyd i'r amodau cywir ar gyfer gwalau naturiol. Gallwn helpu'r broses yma drwy ddarparu gwalau artiffisial, wedi'u gwneud o foncyffion pren neu blastig wedi'i ailgylchu yn aml. Adeiladwyd un wâl artiffisial o'r fath i Ddyfrgwn ar y fferm, wedi'i lleoli ar y lan uwchben y llifddwr ac wrth ymyl pwll dwfn yn yr afon – lleoliad delfrydol. Bu camera bywyd gwyllt yn gwylio Dyfrgi'n mynd a dod ar yr afon am rai misoedd. Ym mis Ionawr eleni, darparodd y camera dystiolaeth bod Dyfrgi benywaidd yn ymchwilio i'r wâl artiffisial, ac wythnosau'n ddiweddarach gwelwyd y fenyw a'i phartner gwrywaidd gyda'i gilydd ar yr afon. Y gobaith oedd bod y Dyfrgi benywaidd yn feichiog gyda rhai bach, ac y byddai'n galw'r fferm yn gartref i'w theulu ifanc newydd yn fuan iawn.

Wedyn, ar y 18^{fed} o Chwefror, cafwyd trychineb wrth i Ddyfrgi gwrywaidd gael ei ddarganfod yn farw ar yr A4226 (Five-Mile Lane) ym Mro Morgannwg. Mae'r ffordd brysur yma'n gyfarwydd i gymudwyr lleol i'r Barri yn y De. Er gwaethaf y newyddion trist, roedd gobaith o hyd y byddai'r fenyw a'i rhai ifanc yn iawn. Yn drasig, bythefnos yn ddiweddarach yn unig, digwyddodd y peth gwaethaf y gellid ei ddychmygu. Canfuwyd y Dyfrgi benywaidd wedi'i lladd, ar yr un ffordd yn yr un lleoliad â'i phartner, ychydig ddyddiau ynghynt. Yn waeth byth, roedd y Dyfrgi benywaidd yn fam erbyn hyn, gan ei bod eisoes wedi rhoi genedigaeth i'w dau fach. Bu ffermwyr a gwirfoddolwyr lleol yn chwilio'r afonydd a'r coetiroedd cyfagos am genawon y fam, ond yn anffodus, ofer oedd hynny. Gan fod y Dyfrgi benywaidd yn dal i laetha, y gred ydi bod y cenawon ifanc wedi marw o newyn ychydig ddyddiau ar ôl marwolaeth eu mam.

Gall dyfrgwn fyw am hyd at 12 mlynedd yn y gwyllt ac fel rheol byddant yn cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol yn ddwy oed. Wrth i famau fuddsoddi llawer iawn o amser yn magu a gofalu am eu cenawon, mae'n golygu efallai mai dim ond dau dorllwyth o rai bach fydd Dyfrgi benywaidd yn eu cael yn ystod ei hoes. Felly, mae colli un Dyfrgi i'n ffyrdd ni'n un Dyfrgi yn ormod. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymchwilio bellach i'r hyn y gallant ei wneud yn y manau cyfyng yma ac mewn lleoliadau eraill ar draws y sir i atal marwolaethau Dyfrgwn eraill yn y dyfodol.

Bydd INCC yn parhau i ddarparu cynefin addas ar y fferm yn ogystal â gwaith gyda'r Awdurdod Lleol i osod mesurau lliniaru priodol ar ffyrdd i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol.

© 2025 Microsoft Corporation Earthstar Geographics SIO